Cyd-gyngor Cymwysterau

| AQA | City & Guilds | CCEA | Edexcel | OCR | CBAC |
|---|---|---|---|---|---|

# Gwybodaeth i Ymgeiswyr
## Profion ar-sgrin – yn weithredol o 1 Medi 2013

**Ysgrifennwyd y ddogfen hon i'ch helpu. Dylech ei darllen yn ofalus a dilyn y cyfarwyddiadau. Os nad ydych yn deall unrhyw beth, gofynnwch i'ch athro/athrawes.**

| | |
|---|---|
| **A** | **Rheoliadau – Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y rheolau** |
| 1 | Cyrhaeddwch mewn pryd am eich prawf (profion) ar-sgrin. Efallai na fydd eich gwaith yn cael ei dderbyn os byddwch yn hwyr. |
| 2 | Peidiwch â gwneud unrhyw beth annheg nac anonest yn ystod y prawf ar-sgrin. |
| 3 | Os byddwch yn ceisio camymddwyn, neu dorri'r rheolau mewn unrhyw ffordd, gallwch gael eich diarddel o'ch pynciau i gyd. |
| 4 | Yr unig bethau y gallwch fynd i mewn i'r ystafell arholiadau gyda chi yw'r deunyddiau ac offer sy'n cael eu caniatáu. |
| 5 | **Ni chewch** fynd â'r canlynol i mewn i'r ystafell arholiadau:<br>• **nodiadau;**<br>• **casyn/taflen gyfarwyddiadau cyfrifiannell;**<br>• **ffôn symudol, iPod, chwaraewr MP3/4, oriawr sydd â dyfais storio data neu unrhyw gynnyrch arall sydd â dyfais testun/digidol.**<br>Oni ddywedir wrthych yn wahanol, **ni ddylech** allu gweld:<br>• y Rhyngrwyd, e-bost, data sy'n cael eu storio ar y gyriant caled, neu gyfryngau storio cludadwy megis disgiau hyblyg, CDau a ffyn cof;<br>• templedi a baratowyd ymlaen llaw.<br>**Cofiwch: Mae bod â deunydd yn eich meddiant heb ganiatâd yn torri'r rheolau hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu ei ddefnyddio, a gallwch gael eich cosbi a'ch diarddel o bosibl.** |
| 6 | Peidiwch â siarad ag ymgeiswyr eraill, na cheisio cyfathrebu â hwy nac amharu arnynt unwaith y bydd y prawf ar-sgrin wedi dechrau. |
| 7 | Os byddwch yn gadael yr ystafell arholiadau heb oruchwyliwr cyn diwedd y prawf ar-sgrin, ni fyddwch yn cael mynd yn ôl i mewn. |
| 8 | Peidiwch â benthyg unrhyw beth gan ymgeisydd arall yn ystod y prawf ar-sgrin. |
| **B** | **Gwybodaeth – Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynychu eich prawf ar-sgrin a bod yr hyn y mae ei angen arnoch gennych** |
| 1 | Dylech wybod dyddiad ac amser pob prawf ar-sgrin. |
| 2 | Dylech gyrraedd o leiaf ddeng munud cyn dechrau eich prawf ar-sgrin. |
| 3 | Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr am brawf ar-sgrin, ewch yn syth at y goruchwyliwr sy'n rhedeg y prawf i ddweud wrtho. |
| 4 | Os byddwch yn cyrraedd fwy nag un awr ar ôl amser dechrau cyhoeddedig y prawf ar-sgrin, efallai na fyddwch yn cael ei gymryd. |
| 5 | Bydd eich canolfan yn dweud wrthych am unrhyw offer y gallech fod ei angen ar gyfer y prawf ar-sgrin. |
| **C** | **Cyfrifianellau, Geiriaduron a Gwirwyr Sillafu Cyfrifiadurol** |
| 1 | Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell oni ddywedir yn wahanol wrthych. |
| 2 | Os byddwch yn defnyddio cyfrifiannell:<br>• gwnewch yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn; gwiriwch fod y batris yn gweithio'n iawn;<br>• cliriwch unrhyw beth sydd wedi'i storio arno;<br>• tynnwch unrhyw rannau megis casys, caeadau neu gloriau sydd â chyfarwyddiadau neu fformiwlâu argraffedig arnynt;<br>• peidiwch â mynd ag unrhyw gyfarwyddiadau gweithredu na rhaglenni parod i mewn i'r ystafell arholiadau. |
| 3 | Peidiwch â defnyddio geiriadur na gwiriwr sillafu cyfrifiadurol oni ddywedir yn wahanol wrthych. |
| **Ch** | **Cyfarwyddiadau yn ystod y prawf ar-sgrin** |
| 1 | Gwrandewch ar y goruchwyliwr bob amser. Dilynwch ei gyfarwyddiadau bob amser. |
| 2 | Dywedwch wrth y goruchwyliwr ar unwaith:<br>• os ydych wedi'ch cofrestru am y prawf ar-sgrin anghywir;<br>• os yw'r prawf ar-sgrin yn enw ymgeisydd arall;<br>• os ydych yn profi unrhyw oedi ar y system neu unrhyw afreoleidd-dra TG arall. |
| 3 | Efallai y bydd papur cwestiynau yn cael ei roi i chi neu bydd y cyfarwyddiadau ar-sgrin. Yn y naill achos a'r llall, darllenwch yn ofalus a dilynwch y cyfarwyddiadau. |
| **D** | **Cyngor a chymorth** |
| 1 | Ar ddiwrnod y prawf ar-sgrin, os ydych yn teimlo'n sâl ac yn meddwl y gallai hyn, neu rywbeth arall, effeithio ar eich gwaith, dywedwch wrth y goruchwyliwr. |
| 2 | Codwch eich llaw yn ystod y prawf ar-sgrin os:<br>• oes gennych broblem â'ch cyfrifiadur a ddim yn siŵr beth i'w wneud;<br>• ydych yn teimlo'n sâl. |
| 3 | Ni ddylech ofyn am eglurhad o'r cwestiynau, ac ni fyddwch yn cael ateb. |
| **DD** | **Ar ddiwedd y prawf ar-sgrin** |
| 1 | Gwnewch yn siŵr bod y meddalwedd yn cau ar ddiwedd y prawf ar-sgrin. |
| 2 | Os oes gofyn i chi argraffu gwaith y tu allan i'r amser sy'n cael ei ganiatáu am y prawf ar-sgrin, gwnewch yn siŵr eich bod yn casglu eich gwaith eich hun. Ni ddylech rannu eich gwaith ag ymgeiswyr eraill. Gwnewch yn siŵr na fydd unrhyw ymgeisydd arall yn casglu eich allbrint(iau). |
| 3 | Peidiwch â gadael yr ystafell arholiadau hyd nes y bydd y goruchwyliwr yn dweud y cewch wneud hynny. |
| 4 | Peidiwch â mynd ag unrhyw ddeunyddiau o'r ystafell arholiadau.<br>Mae hyn yn cynnwys gwaith bras, allbrintiau ac unrhyw ddeunyddiau eraill a ddarparwyd ar gyfer y prawf ar-sgrin. |

© 2013